

Esiamp! o destun dwyn i gof

Pa nodweddion sy'n gyffredin?

Person 1^{af} (fy/ein) neu
3ydd person (ef/hi/eu)

Os 1af, yna personol

Amser gorffennol

Penodol a disgrifiadol
– yn aml yn dilyn arddull
gwybodaeth neu esboniad

Trefn gronolegol

Paragraffau yn dechrau
â brawddeg bynciai yn
aml

Iaith lafar

Cysyllteiriau sy'n
gysylltiedig ag amser

yna
pan
wedy
yn y cyfamser
cyn
y diwrnod canlynol
erbyn

Dyddiadur

Dydd Mercher, Tachwedd 21ain 1965

Es i ddim i'r Ysgol heddiw gan fod Mam yn dweud bod eisiau i bob copa walltog ddangos eu gwrthwynebiad i'r cynlluniau gwallgof. Aethon ni, ar y bws cyntaf yn gynnar yn y bore'r holl ffordd i Lerpwl. Dyma'r tro cyntaf i fi fynd tu allan i Gymru! Teimlais yn gyffrous iawn wrth glywed pawb yn trafod a phregethu. Roedd Elwyn, fy ffrind ar y bws arall.

Cyrhaeddodd ni strydoedd Lerpwl cyn cinio, a chefais faner i'w chario gyda'r geiriau Saesneg, 'Your homes are safe. Save ours.' Wrth i ni gerdded ar hyd strydoedd llydan y ddinas, roedd rhai o hen wragedd y lle yn ein gwyllo gan weiddi a galw enwau arnom. Teimlais yn ofnus iawn. Dalais law fy mam yn dynn wrth i gannoedd ohonom gerdded yn araf a threfnus tuag at neuadd y ddinas. Doeddwn i erioed wedi gweld cymaint o bobl.

Ar ôl cyrraedd, dechreuodd pawb ganu emynau Cymraeg a safodd Gwynfor Evans (dyn pwysig yn ôl mam) o flaen y dorf a'n hannerch ni. Cynhyrfodd pawb, ac ar ôl iddo orffen, dechreuodd y cymeradwyo.

Wedyn, aeth dad a nifer o'r dynion i mewn i'r siambr wrth i ni aros tu allan yn yr oerfel. Dechreuais ddiflasu.

Ymhen hir a hwyr, daeth dynion y cwm allan, â'u pen yn eu plu. Synhwyras fod rhywbeth o'i le, ond nid dyma'r amser i ofyn cwestiynau.

Meini prawf llwyddiant:

Sawl un o'r nodweddion iaith sydd yn y testunau yma? Ydych chi'n gallu dod o hyd iddynt?

Beth bydd angen i chi ei wneud pan fyddwch yn cyflwyno eich testun dwyn i gof?

Pwrpas:

Ailadrodd digwyddiad go iawn mewn ffordd sy'n rhoi gwybodaeth yn llawn dychymyg


Cynulleidfa:

Rhywun sydd eisiau gwybod beth ddigwyddodd

Dulliau o baratoi/gynllunio:

- Athro yn modelu ysgrifennu dwyn i gof fel gweithgaredd ysgrifennu ar y cyd
- Dysgwyr yn darllen esiamplau dwyn i gof amrywiol, yn llenyddol ac anllenyddol, e.e. cofiannau, hunangofiannau, storïau
- Dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llafar i egluro trefn digwyddiadau, e.e. cadair goch cymeriad, ffug neu go-iawn; paratoi bwletin newyddion i'r teledu neu'r radio
- Dysgwyr yn nodi dilyniant digwyddiadau mewn naratif/digwyddiad ar ffurf nodiadau, e.e. boddi Capel Celyn
- Dysgwyr yn nodi'r hyn sydd wedi digwydd yn nhrefn amser gan ddefnyddio llinell amser neu ddyfais graffig debyg

Dwyn i gof



Cyd-destunau posib:

- Bywgraffiad, hunangofiant neu stori wir
- Adrodd ar ddigwyddiad e.e. boddi Cwm Tryweryn

Strwythur nodweddiadol:

- Trefn Gronolegol – adrodd ar ddigwyddiadau wrth iddynt ddigwydd
- Paragraffau yn dechrau â brawddeg bynciol yn aml
- Cyfeirio – gosod y llwyfan ac ailgyfeirio – datganiad i gloi

Meini prawf llwyddiant:

- A yw holl fanylion perthnasol y digwyddiad wedi'u cynnwys?
- A yw'r digwyddiadau yn eu trefn?
- A oes strwythur rhesymegol gyda dechrau a diwedd priodol?
- A yw'r ysgrifennu yn ennyn diddordeb y darllenydd?

Nodweddion iaith nodweddiadol:

- Person 1af neu 3ydd person - os 1af, yna personol
- Amser gorffennol
- Cysyllteiriau amser a dechrau brawddegau er mwyn bod yn gydlynol:

Yna ...

Ar ôl hynny ...

Yn y cyfamser ...

Ar yr un pryd ...

Cyn ...

Y diwrnod canlynol ...

Erbyn yr amser ...

- Arddull benodol a disgrifiadol - yn aml yn ôl dull gwybodaeth neu esboniad
- Iaith lafar